# Partneriaeth Natur Leol Ceredigion

# Gweithdai Adfer Natur

# Tachwedd – Rhagfyr 2023

Adroddiad – paratowyd gan Elizabeth Mutch
a Bethan Morgan





Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

# Mae cyfathrebu’n arwain at gymuned, hynny yw, dealltwriaeth, agosrwydd a gwerthfawrogi gan y naill ochr a’r llall.

Rollo May

## Cyflwyniad

Mae Ceredigion yn sir sy’n llawn o batrymau tirwedd ac yn gartref i amrywiol ecosystemau a bioamrywiaeth. Mae’r ased naturiol cyfoethog hwn dan fygythiad ecolegol yn gyson, ac er bod ardaloedd lle mae ecosystemau’n ffynnu, mae angen i bawb newid er mwyn i hynny gael effaith, ac ar fyrder.

I ymateb i hyn, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion (CGANC) yn alwad i weithredu; gweledigaeth i atal a newid y colli bioamrywiaeth a gyrru ymlaen i adfer natur yn y sir. Mae’n adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (CGBL) yng Ngheredigion a gyhoeddwyd yn 2002, ac mae’n cymryd yr amcanion o’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Cymru gan eu gosod yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol.

Mae’r Cynllun yn cael eu ddatblygu gan Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion, sy’n gymuned gydweithredol o gyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat, sefydliadau di-elw, grwpiau cymunedol ac unigolion sydd â diddordeb mewn gwarchod ac adfer ecosystemau ledled y sir. Ond os yw’r gweithredu o fewn y Cynllun i wneud gwahaniaeth i adfer natur yng Ngheredigion, mae angen i drigolion a gweithwyr y sir ymgysylltu ag ef, i deimlo bod hwn yn Gynllun sy’n rhoi mynegiant i’w llais hwy yn gymaint â llais cadwraethwyr proffesiynol.

## Gweithdai Adfer Natur: *Beth oeddem ni’n gobeithio’i gyflawni?*

Yng nghyd-destun datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion (CGANC), roedd Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol eisiau deall sut mae amrywiaeth o bobl ar draws y sir yn teimlo am adfer natur. Ble mae’r gweithredu, y prosiectau a’r negeseuon cadarnhaol? Beth ellid ei wneud yn well? Mae’n gyfle addas i wrando ar leisiau’r gymuned a’u cynnwys yn y CGANC yn y cyfnodau drafft, i annog cymryd rhan a rhannu gwybodaeth, a pherchnogaeth yn pen draw.

Mae gweithdai grŵp bychan yn darparu data ansawdd cyfoethog yn gyflym gan alluogi cyfnewid barn rhwng y rhai sy’n cymryd rhan a hwyluswyr, yn ogystal â bod yn ddull defnyddiol o gasglu gwybodaeth thema. Ar y sail honno dyfeisiwyd cyfres o

weithdai ymgysylltu gennym i’w cynnal ledled Ceredigion, gyda’r amcanion hyn wedi eu cytuno:

*Deall sut mae pobl yn teimlo am Adfer Natur ar draws y sir; prif broblemau a rhwystrau, pethau cadarnhaol a/neu atebion.*

*Darganfod pa brosiectau a gweithgareddau sy’n mynd ymlaen mewn gwahanol ardaloedd daearyddol yn y sir, a pha brosiectau uchelgeisiol a allai ddigwydd yn y dyfodol.*

*Darganfod beth mae pobl yn credu allai helpu adfer natur, a phwy ddylid eu cynnwys yn y sgwrs.*

Mae’r cwestiynau hyn yn angor i’r gweithdai, a bydd yr ymatebion yn ychwanegu llais y gymuned at y Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Geredigion.

## Sut gwnaethom ni hyn.


Ein nod oedd cael hyd at 20 o bobl ym mhob gweithdy o amrywiaeth helaeth o grwpiau rhan-ddeiliaid, gan gynnwys unigolion yn cynrychioli sefydliadau, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr, tirfeddianwyr gan gynnwys ffermwyr a thrigolion yng Ngheredigion sydd â diddordeb. Hwyluswyd y gweithdai gyda siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

Trefnwyd y lleoliadau yn ddaearyddol er mwyn annog cynrychiolaeth mor eang â phosibl, ac roeddent yn adnabyddus yn yr ardaloedd lleol. Roedd un o’r gweithdai un-dyn yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cymru yng Nghilgerran yn cynnwys taith gerdded a sgwrs gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru.

Er mwyn cynnwys cynifer o bobl â phosibl, trefnwyd dau weithdy ar-lein hefyd, yn ogystal â gweithdy ar-lein ychwanegol i aelodau o bartneriaeth Tir Canol, er mwyn clywed syniadau’r gynulleidfa benodol o dirfeddianwyr / cadwriaethwyr.

Buom yn gweithio gyda chydlynydd Partneriaeth Natur Leol Ceredigion a’r tîm i roi cyhoeddusrwydd i’r gweithdai yn ddwyieithog i’r holl aelodaeth. Buom hefyd yn dosbarthu gwahoddiadau ac yn hyrwyddo’r gweithdai ymhlith grwpiau amgylcheddol, sefydliadau gwirfoddolwyr, ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol, mewn hybiau cymunedol, a thrwy rwydweithiau personol i geisio sicrhau cyfranogaeth eang.

Roedd y digwyddiadau personol yn para dwy awr a hanner, y rhai drwy’r dydd yn para pum awr a'r gweithdai ar-lein yn para dwy awr.




## Ble a Phryd?

| | |
|---|---|
| Llanbedr | 9 Tachwedd |
| Aberteifi | 10 Tachwedd |
| Aberystwyth | 6 Rhagfyr |
| Gweithdai ar-lein | 16 /17 Tachwedd |
| Gweithdy Ar-lein i Tir Canol | 28 Tachwedd |

## Beth oedd y cwestiynau a ofynnwyd?

*[gweler Atodiad i, y cynllun Gweithdai]*

- ***Gosodwch eich hun/eich prosiect ar y map.***
- ***Ble rydych yn ymgysylltu â natur yng Ngheredigion?***
- ***Beth yw'r pethau cadarnhaol ynglŷn ag adfer natur yng Ngheredigion?***
- ***Beth sy'n rhwystro adfer natur yng Ngheredigion?***
- ***Ble gallwn ni wella, a beth dybiwch chi allwn ei wneud fel cymuned i helpu?***
- ***Pwy sy'n absennol o'r ystafell ac y dylem wybod amdanynt?***

## Ffurf y gweithdai

### Yn bersonol

Ar ddechrau'r sesiwn gofynnwyd i bawb 'osod eich hun ar y map', ac i ysgrifennu ar nodyn enw prosiect os oeddent yn cynrychioli un.

Ar ôl ymgyfarwyddo cafwyd ymarfer ymlacio lle gofynnwyd i'r cyfranogwyr eu cyflwyno'u hunain a dweud ble maent yn ymgysylltu â natur yng Ngheredigion.

Ar ôl trosolwg byr o'r gweithdy a'r cyd-destun, rhannwyd y cyfranogwyr yn ddau grŵp bychan (gan ddibynnu ar y lleoliad) a'u harwain drwy gyfres o gwestiynau/ysgogiadau. Cafodd yr ymatebion eu cofnodi gan ddau gofnodwr a'u hysgrifennu ar siart bapur i'w rhannu rhwng y grwpiau.

Roedd amser am sgyrsiau anffurfiol wrth gofrestru a thoriad am luniaeth hanner y ffordd drwy'r sesiynau. Byddai'r hwyluswyr yn gadael i'r sgyrsiau barhau, os oedd yn bosibl heb fynd dros yr amser.

Yn ystod y sesiwn rhoddodd Rachel Auckland, cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol, drosolwg byr o'r gwaith yng nghyd-destun y Bartneriaeth Natur a'r camau nesaf.

**Ar-lein**

Câi'r sesiynau ar-lein eu rhedeg mor agos â phosibl at ffurf y sesiynau personol, er bod y sesiynau'n fyrrach i adlewyrchu'r amser i ganolbwyntio ar-lein. Defnyddid y system 'chat' i weld y lleoliad a manylion y prosiectau, a defnyddiwyd yr offeryn bwrdd gwyn i gyfleu'r sylwadau. Byddai'r hwyluswyr yn cynnig cofnodi pan fyddai angen.

## Â phwy fuom ni'n cysylltu?

Roedd y gweithdai'n cynnwys ystod amrywiol o bobl o bob rhan o Geredigion, heb bwyslais trwm ar y sector amgylcheddol. Roedd y sgyrsiau'n eang, mae'n debyg oherwydd bod cydbwysedd yn y gynulleidfa, er bod themâu cyson yn codi.

Bu cyfanswm o 48 o bobl, yn bresennol yn y chwe gweithdy (gan gynnwys Tir Canol), a gellir rhannu'r cynulleidfaoedd fel hyn:

Sefydliadau: 14

Tirfeddianwyr: 11

Academaidd: 1

Y cyhoedd: 13

Busnesau: 1

Sector cyhoeddus: 2

Aelodau o Tir Canol: 6

## Beth ddysgon ni – Darganfyddiadau Allweddol*

**Mae'r adran hon yn cynrychioli themâu a ddaeth yn amlwg ar draws trafodaethau'r grwpiau. Oni nodir yn wahanol, roedd y themâu'n codi ym mhob gweithdy, a daw'r dyfyniadau a roir fel enghreifftiau yn fras o'r holl ddigwyddiadau. Mae'r sylwadau unigol ar gyfer pob cwestiwn wedi eu rhestru yn Atodiad ii.*

## Themâu o Bwys

A barnu o nifer yr atebion i gwestiynau'r gweithdai, doedd dim prinder syniadau neu awgrymiadau gan yr holl gyfranogwyr. Roedd hyd yn oed y rheiny a oedd wedi dod i wrando'n unig yn cynnig sylwadau'n breifat. Roedd ynni gwahanol ym mhob gweithdy, a rhai pynciau'n cael blaenoriaeth. Roedd gwybodaeth leol yn fwy amlwg mewn gweithdai lle roedd llai o gyfranogwyr o'r sefydliadau, er enghraifft, gweithdy Llanbedr (9 Tachwedd).

Roedd yna themâu cyson yn y gweithdai i gyd, a gellir eu crynhoi'n fras fel hyn:

**Rheoli tir**

O gefnogaeth i ffermio sy'n garedig i natur i faterion mynediad, plannu coed, adfer mawndir a llygredd afonydd, roedd rheoli tir yn amlwg iawn yn sylwadau'r holl grwpiau.

*"Small holders can't afford to carry out nature friendly initiatives - lack of financial support".*

*"Bog restoration at RSPB and Cors Fochno using a variety of funding sources".*

*"Innovative Farmers - a network of farmers and growers running on-farm trials - 'field labs', citizen science".*

*"River Merin - improvements to flood plain and slowing of river flow".*

*"Lack of knowledge about hedge laying/preservation".*

**[a]**

**Gwella arferion rheoli tir.**

Roedd rheoli graddfa tirweddu yn amlwg yn y sylwadau, ond felly hefyd arferion graddfa leol, yn enwedig yr ymgyrch Mai Di-dor ar ymylon ffyrdd, a oedd yn cael ei ystyried yn gadarnhaol gan mwyaf. Mae poblogrwydd y cynllun hwn yn dangos sut y gall negeseuon syml gael eu hyrwyddo ar draws cynulleidfaoedd, er lles bioamrywiaeth.

*"No mow May for council verges; good verge and hedgerow management"*

*"Better environmental management in County Council"*

*“Reduced verge cutting, letting the weeds grow”*

*“Increase in pollinator plants on council verges”*

*“No Mow May, Let June Bloom”*

*“Improved mowing regimes, frequency, type of cut etc”*

At hynny, roedd Tir Canol yn amlwg mewn trafodaethau fel enghraifft leol ar gyfer adfer natur, gan ddwyn ynghyd dirfeddianwyr a chadwriaethwyr mewn prosiectau sy’n sensitif yn ddiwylliannol.

“Positive conservation happening via **Tir Canol**”

“**Tir Canol** - bringing farmers together in holistic way - including landscape, history and language”.

**Rhaid cael arian!**

Roedd pawb yn cydnabod, os yw adfer natur i lwyddo yna mae angen gallu cael arian a newid yn y prosesau presennol. Dywedodd cyfranogwyr ei bod yn anodd cael arian ar gyfer prosiectau, a bod ceisiadau’n gymhleth ac yn faith. Cytunwyd yn gyffredinol fod nifer o gronfeydd yn disgwyl ateb buan i geisiadau, ac nid oes gan grwpiau cymunedol y gallu i wneud hynny, ac felly mae’r arian yn aml yn mynd i’r sefydliadau mwy o faint.

*“Grant funding is very short term”.*

*“Grants based on revenue rather than capital”.*

*“Funding is often short term and last minute”.*

*“Restricted development… access to funding due to governance”*

*“Well thought through financial incentives”.*

**Cyfathrebu, gwybodaeth a sut i gymryd rhan.**

Mater a oedd yn amlwg yn yr oll weithdai oedd sut y gall pobl fod yn rhan o weithredu i adfer natur, a phwy mae angen iddyn nhw gysylltu i roi gwybod i awdurdodau am bryderon amgylcheddol, a ble gallant gael gwybodaeth am adfer natur.

Mae rhoi gwybodaeth i bobl a chynyddu ymwybyddiaeth yn ateb hawdd i’r Bartneriaeth Natur Leol (PNL) sydd â chynllun cyfathrebu’n cael ei datblygu, er bod cydnabyddiaeth fod gallu a chyllideb yn gallu cyfyngu, yr un fath â gweithdrefnau cyfathrebu mewnol.

“Not very good at engaging with non-conservation communities”.

“Knowing who does what”?

“Hard for groups to find opportunities and know what’s possible - lack of communication”.

“Not enough information about how to participate”.

“How to find out about meetings, events and information”?

**Sylwadau cyffredinol**

Mae’n werth nodi themâu eraill llai amlwg a gododd mewn nifer o’r gweithdai ond nid y cyfan, gan gynnwys mynediad i safleoedd natur; ar gyfer gwirfoddoli ac ar gyfer iechyd a llesiant. Roedd y thema hon yn amlwg yn y gweithdy ar-lein ar 17 Tachwedd, lle’r oedd y cyfranogwyr yn grŵp iau ac yn gwirfoddoli ar brosiectau amgylcheddol neu wedi cael profiad o gadwraeth.

Soniwyd hefyd am gyflwyno belaod y coed yn yr ardal a'r prosiectau blychau i’r wennol ddu, sôn am blannu coed a choedlannau gan ddilyn tuedd genedlaethol o blannu coed er mwyn yr hinsawdd.

Soniwyd am sylwi ar nodweddion y môr a’r arfordir mewn sawl gweithdy, ond nid y cyfan, gan adlewyrchu sylw un cyfranogwr fod y môr, er mai tirwedd arfordir sydd i Geredigion, yn aml yn cael ei anwybyddu wrth drafod ein tirwedd ranbarthol.

Roedd y drafodaeth glo yng ngweithdy Aberteifi yn canolbwyntio ar y manteision i’r gymuned o gael mynediad at natur, ac roedd yn cynnwys syniadau am fapio teithiau cerdded lleol a chofnodi bioamrywiaeth y gellid eu hailadrodd ar draws y sir.



*Parc Natur Penglais ( Aberystwyth)*

## Ymatebion i gwestiynau mewn gweithdai unigol.

*Yn yr adran hon rydym yn edrych ar sampl o uchafbwyntiau'r cwestiynau a ofynnwyd yn y grwpiau ffocws. Am restr lawn o'r ymatebion trowch i Atodiad ii.*

### *Beth yw'r pethau cadarnhaol ynglŷn ag adfer natur yng Ngheredigion?*

Rydym yn tueddi'n gryf i fod yn negyddol, yn enwedig pan ddaw'n fater o ymgynghori. Rydym yn dueddol o allu adrodd am faterion a phroblemau lawer yn haws nag am gamau neu deimladau cadarnhaol. Felly, dechreuwyd y gyfres hon o gwestiynau gweithdy drwy ofyn i'r cyfranogwyr ystyried y pethau cadarnhaol – beth yw bod yn dda? Fel hyn mae'r enghreifftiau o arfer da yn gosod y naws ar gyfer y sesiynau. Mae data ecolegol yn dweud wrthym mor heriol yw cyflwr natur, ond mae digon o weithredu cadarnhaol yn digwydd ledled Ceredigion.

***Sampl o ymatebion***

*"A nature curriculum going on in 10 schools over Ceredigion - Harmony project".*

*"Community gardens in Penparcau, Tregaron and Lampeter"*

*"Tir Coed - mental health and learning new skills in woodlands".*

*" Public getting behind and supporting river health".*

*"Prioritising broadleaf conservation and planting near Devil's bridge".*

*"Denmark farm orchid count 1104 from 400 2 years ago".*



*Parc-y-llyn (Aberystwyth)*

## *Beth sy’n rhwystro adfer natur yng Ngheredigion?*

Ni fyddai angen pwysleisio adfer natur pe bae ein hamgylchedd yn ffynnu. Mae’r cwestiwn hwn yn ystyried yr holl broblemau a'r rhwystrau wrth geisio adfer natur. Gallai’r cyfranogwyr roi sylwadau ar rwystrau cenedlaethol a gwleidyddol yn ogystal â’r rhai sy’n lleol iddynt.

**Sampl o ymatebion**

*“Monoculture and the ensuing destruction of habitat”*

*“Fewer water bailiffs and forestry staff than before (e.g. to enforce fines for pollution etc.)”*

*“Last bit of wetland at Waunfawr was drained for building”.*

*“Difficult bureaucratic processes to getting conservation work done”.*

*“Young people don’t know how to engage and can be lost in the conversation”.*



*Wrth yr afon yng Nghenarth (Dyffryn Teifi)*

## *Ble gallwn ni wella a beth dybiwch chi allwn ni ei wneud fel cymuned i helpu?*

Gan feddwl am yr hyn sy'n rhwystro adfer natur, mae'r cwestiwn gweithdy nesaf yn gofyn i'r cyfranogwyr ystyried atebion posibl i rai o'r materion hyn, ac a oes camau cadarnhaol a allai helpu. Roedd yr ymatebion yn ymarferol ac yn gynhwysol, a chytunwyd, os yw adfer natur yn wir yn bwysig i gynghorau, y Bartneriaeth Natur ac arweinwyr gwleidyddol, yna mae angen cael gwell sgwrs rhwng cymunedau a'r rheiny sydd â'r 'grym'.

### *Sampl o ymatebion*

*"Incentivise by demonstrating that actions can have an impact - let volunteers know how their actions help and make a difference - person power".*

*"Better access to funding for 'non-expert' groups"*

*"Being mindful of all voices working in and experiencing the nature sector".*

*"Nature Recovery as standard within planning applications, for example.*

*"Support Ceredigion Meadows Group"*



*Pen Dinas (Aberystwyth)*

## *Pwy sy’n absennol o’r ystafell a all helpu ac y dylem wybod amdanynt?*

Diben y cwestiwn hwn oedd defnyddio gwybodaeth leol y cyfranogwyr i dynnu sylw at y grwpiau/unigolion sy’n gweithredu ar lefel y gymuned ym mhob ardal, fel y gall y Bartneriaeth Natur Leol eu gwahodd i ymuno â’r aelodau (am restr lawn gweler Atodiad ii).

Fodd bynnag, roedd hyn yn gyfle i nifer o’r cyfranogwyr enwi rhan-ddeiliaid mwy o faint mewn gwaith adfer natur ledled y sir. Er bod nifer o’r rhai a awgrymwyd eisoes yn ymwneud â’r PNL, gall y rhestr hon fod yn gyfle i holi aelodau’r PNL ac i wahodd y sefydliadau hynny nad ydynt wedi ymuno neu i ailgysylltu â’r rheiny nad ydynt wedi cymryd rhan ers tro.

### *Pwy sy’n absennol?*

| | |
|---|---|
| • Diwydiant twristiaeth | • Ramblers Association a Grwpiau cerdded |
| • Cynllunio sirol | • MIND / Grwpiau iechyd meddwl |
| • Cynghorwyr Tref a Chymuned | • Cyllidwyr perthnasol |
| • Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus | • CNC |
| • Busnesau Lleol | • Welsh Water / Dŵr Cymru |
| • Darparwyr cludiant cyhoeddus | • Cyswllt Ffermio |
| • Undeb Myfyrwyr, cymdeithasau myfyrwyr | • FUW/ NFU |
| • Prifysgol | • Ffermwyr / Tirfeddianwyr |
| • Sefydliad biosffer Dyfi | • Sioeau lleol/pentref/amaethyddol |



ffermwr yn aredig

## Crynodeb

Roedd y gyfres  hon o weithdai ymgysylltu yn gyfle amserol i lunio map o'r farn am adfer natur ar draws Ceredigion cyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion. Maent yn cofnodi cefnogaeth y cyhoedd a sefydliadau i waith amgylcheddol a gwarchodaeth, ac yn adlewyrchu yn y bobol a gymerodd ran y dymuniad am le i fyw a gweithio sy'n gyfoethog o ran natur. Maent yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau a phrosiectau y gellir eu crynhoi yn ôl thema a chyfeirio atynt o fewn CGAN Ceredigion.

## Argymhellion

*Gallai'r* tîm PNL fapio data'r prosiect a'u defnyddio i'w hychwanegu at yr amcanion 30 wrth 30.

*Gallai'r* syniadau ar gyfer prosiectau a gweithredu fod yn sail i gynlluniau grantiau bach pe byddai'r gyllideb ar gael, a gellir cael cipolwg ar yr ariannu yng nghyfarfodydd cenedlaethol PNL a'i gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio galwadau am arian ar lefel leol.

Roedd y gweithdai'n gyfle i bobl drafod eu prosiectau eu hunain a rhannu dyheadau ar gyfer rhai eraill mewn man gyda chydweithrediad a chefnogaeth. Ni fwriadwyd iddynt fod yn grwpiau trafod lefel uchel yn cael eu harwain gan strategaeth, er y *gallai* rhai o'r canlyniadau gael eu cynnwys mewn strategaethau lleol i helpu sicrhau Adfer Natur.

Cynigiodd y cyfranogwyr y wybodaeth hael yn wirfoddol, ac roeddent wedi ymroi i ddarparu ymatebion synhwyrol a diddorol. *Gallai* rhai ohonynt gael eu dewis ar gyfer grwpiau ffocws yn y dyfodol pan gaiff Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion ei gyhoeddi, er mwyn parhau uchelgais y Bartneriaeth Natur Leol i gynnwys amrywiaeth eang o leisiau wrth greu'r Cynllun hwn.

Un o ganlyniadau'r gweithdai ar unwaith fyddai parhau i adeiladu ar ohebiaeth y Bartneriaeth Natur Leol i annog mwy o leisiau i ddod i mewn i gadwraeth a pharhau i hyrwyddo cynhwysiant wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Er mwyn manteisio ar y cyfle, mae'r gweithdai hyn wedi ymroi i gynnwys pawb yn y ddogfen fyw hon ac i adlewyrchu'r adborth mewn gweithredu a fydd yn helpu sicrhau ei lwyddiant a'i dderbyn yn lleol.



*Gwirfoddolwyr Fferm Denmark (Llanbedr)*

**Gweithdai Adfer Natur Ceredigion**

**Atodiadau**

**Atodiad i.**

# Gweithdai ymgysylltu PNL Ceredigion

**Dyddiadau: 6 – 17 Tachwedd**

## Awgrymu cwestiynau'r gweithdy ac amlinelliad.

### Cyflwyniad a ffurf ar gyfer y sesiwn. 10 mun

Gosodwch eich hun ar y map – marciwch leoliad eich prosiect.

---

**Cynhesu:** Ble fyddwch chi'n mynd i gysylltu â natur? (10 mun)

### Gweithdy 1 25 mun gyda myfyrio

Ble mae adfer natur yn gweithio'n dda yn eich ardal chi?

### Gweithdy 2 25 mun gyda myfyrio

Beth yw problemau /rhwystrau gydag adfer natur yng Ngheredigion?

### Gweithdy 3 20 mun gyda gwaith grŵp a blaenoriaethu

Gan adeiladu ar hyn, ble gallwn ni wella a beth gredwch chi y gallwn ei wneud fel cymuned i helpu?

### [toriad] 10 munud

### Gweithdy 4 25 mun gyda myfyrio

[Theori newid]

Pwy mae angen eu cynnwys er mwyn i hyn ddigwydd?

### Casgliad ac adborth 10 munud – i orffen

Camau nesaf ac eiriolaeth (pencampwyr)

**Atodiad ii**

| **Llanbedr (Pethau cadarnhaol ac atebion gyda'i gilydd)** |
|---|
| Ail-gyflwyno bele'r coed |
| Diogelu'r boblogaeth bresennol o wiwerod – Partneriaeth Gwiwerod Coch |
| Mynyddoedd Cambria i barhau'n fan o anialwch naturiol |
| Mae poblogaeth isel cefn gwlad yn golygu llai o effeithiau negyddol datblygu tai |
| Canolfannau addysg bywyd gwyllt – edrych ar arfer da mewn mannau eraill, e.e. Sywell Park, Northants |
| Cynnwys plant drwy brosiectau ysgol a gweithgareddau ysgol y goedwig |
| Cwricwlwm natur ar waith mewn 10 ysgol yng Ngheredigion – Prosiect harmoni |
| Coetiroedd ac adeileddau fel Fferm Denmark, Eco Hub Aber, Longwood, Blue-Green Cymru, Coed-y-Bont, Blaen Canol – nifer o weithgareddau'n cynnwys ysgolion y goedwig, amaethyddiaeth atgynhyrchiol, gwirfoddoli a phenwythnosau 'Cyswllt Natur ' wedi'u cynllunio |
| Tir Glas – perllannau a mathau o goed afalau Treftadaeth Cymreig |
| Grŵp Gweirgloddiau Ceredigion |
| Fferm Patrick Holden |
| Menter Mynyddoedd Cambria – cysylltu â logo Green Way? |
| Gerddi cymunedol ym Mhenparcau, Tregaron a Llanbedr |
| Cymhorthdal y Llywodraeth ar gyfer plygu a chreu cloddiau |
| Ychydig adfywio naturiol yn digwydd ar dir CNC |
| Achub Afon Teifi – trigolion lleol a physgotwyr yn trefnu o gwmpas adfer natur ar afon Teifi |
| Cefnogi amaethyddiaeth gan y gymuned |
| Grwpiau lleol – grŵp trawsnewid, XR, Working for Gardeners Association, Landworkers' Alliance |
| Gwella llwybr arfordir Ceredigion |
| Cynlluniau blychau nythu a gwarchod adar |
| Poblogaethau iach o ystlumod a gwyfynod; ceirw i'w gweld yn amlach; gwell cofnodion o'r tingoch, y gwybedog a thitw'r gors |
| Gwell rheolaeth amgylcheddol gan y Cyngor Sir |
| Mai Di-dor ar ymylon ffyrdd y Cyngor, rheoli ymylon ffyrdd a chloddiau'n dda |
| Cyfathrebu syml, lliwgar, hygyrch sut i gymryd rhan |
| Teithiau cerdded fforio am ddim ar y cyfryngau cymdeithasol |
| Adfer mawndir ar Gors Caron |
| Innovative Farmers – rhwydwaith o ffermwyr a thyfwyr yn rhedeg treialon ar ffermydd – labordai fferm, gwyddoniaeth y bobl |
| Ymwybyddiaeth o hanes ac archeoleg |
| Cyrsiau ar goetiroedd bach ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl |

| |
|---|
| Prosiect Monitro Bae Ceredigion yn y Ceinewydd – monitro'r dolffin trwynbwl<br>Mwy o fentrau'n digwydd yng Nghymru |
| **Aberteifi – pethau cadarnhaol** |
| Cydnabod natur a llesiant<br>Cyfeillion Parc Natur Pen-glais<br>Tir Coed – iechyd meddwl a dysgu sgiliau newydd mewn coetiroedd<br>Hybiau peiriannau, rhannu offer, caffes trwsio<br>Grwpiau'n rhannu hyfforddiant – defnyddio llif gadwyn, cymorth cyntaf<br>Dadansoddi platiau rhif yn dangos cynnydd mewn pryfed<br>Poblogaeth y wiwer goch<br>Ail-gyflwyno bele'r coed<br>Teithiau cerdded i rai nad ydynt yn gadwraethwyr<br>Teithiau tracio wedi'u trefnu gan British Ecological Society a Vincent Wildlife Trust<br>Samplu dŵr i sylwi ar newidiadau gydag amser<br>Rhandiroedd, gerddi cymunedol, cynhyrchu bwyd yn lleol<br>Grwpiau chwaraeon awyr agored (rhedeg a beicio) yn cymryd diddordeb mewn antur<br>Cydnabod natur fel adnodd llesiant<br>Arian ar gael ar gyfer prosiectau gwytnwch bwyd<br>Cynyddu ymwybyddiaeth o beidio â tharfu ar famaliaid y môr<br>Canolfan Bywyd Gwyllt y Môr – cymwynasgar iawn!<br>Llai o dorri ymylon ffyrdd, gadael i chwyn dyfu<br>Mwy o blanhigion i beillwyr ar ymylon ffyrdd cyngor<br>Mwy o ymwybyddiaeth gan y cyhoedd o wenyn, peillwyr a hadau brodorol<br>Gwell arferion amgylcheddol<br>Mai Di-dor, Blodau Mehefin<br>Defnyddio chwynladdwyr yn gyfrifol<br>Cadwraeth gadarnhaol yn digwydd drwy Tir Canol<br>Yr holl fentrau llawr gwlad<br>Mentrau llawr gwlad yn cydgysylltu i ymgeisio am grantiau perthnasol<br>Y cyhoedd yn cefnogi iechyd afonydd<br>Hyfforddiant hadau meithrinfeydd coed<br>Rhannu hadau (mathau addas) yn ffordd gadarnhaol i gynyddu ymwybyddiaeth<br>Yr adroddiad 30 x 30<br>Cynnwys a gwahodd croestoriad eang o bobl Ceredigion, nid yn unig y rhai sydd 'a diddordeb'.<br>Cyd-gynhyrchu fel ffordd gadarnhaol i ymgysylltu |

| |
|---|
| Pocedi o natur yn y trefi<br>Ffynhonnau Resilience<br>Cwm Anian |
| **Penparcau – pethau cadarnhaol** |
| Gwell llwybrau troed yn Aberystwyth ers Covid – cwrs golff, Pen Dinas, Rhydyfelin, llwybr Consti<br>Teithiau natur Penparcau a'r ardd Hwb<br>Prosiect blychau'r wennol ddu ar ddod<br>Coetir wrth yr afon yn Aberaeron yn eiddo i amgylcheddwr o Gaerdydd<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Geufron<br>Coetir y mileniwm<br>Coetir Anian – cyswllt natur i grwpiau ieuenctid a gwaith ar adfer natur<br>Llwybr beicio Ystwyth<br>Tir Coed, Llanfarian – creu rhandir cymunedol<br>Trefenter – coetir cymysg yn cael ei reoli gan wirfoddolwyr<br>Gwell trefniadau torri gwair, amlder torri, math o dorri...<br>Pwll Crwn – coetir uni – ond mae angen ei reoli<br>Tir Canol – dod â ffermwyr ynghyd mewn ffordd holistaidd – gan gynnwys tirwedd, hanes ac iaith<br>Meithrinfa goed/gardd furiog Hafod<br>Llwybr natur Parc-y-llyn<br>Gwirfoddolwyr cadwraeth Prifysgol Aberystwyth<br>Rheoli coedydd Pen-glais<br>New Road Park<br>Gardd Pont Trefechan<br>Ieir Bach yr Haf<br>Blychau ystlumod<br>Bele'r Coed<br>Y dylluan wen<br>Yr ewig – a chamerâu dilyn a gwe-gamerâu i gynyddu ymwybyddiaeth<br>Fforwm Ieuenctid Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt – cofnodi bywyd gwyllt ac ymgysylltu<br>Coedlan fach hynafol ger Llanfarian<br>Cofnodi bioamrywiaeth ledled Ceredigion<br>Clefyd coed ynn - ail-blannu 3:1<br>Gardd lysiau'r Ail Ryfel Byd yn y Brifysgol<br>Plas Crug – lle tyfu newydd<br>Prosiect CNC cyforgors Cymru - Cors Fochno, Cors Caron<br>Mynwent Llanbadarn – blodau gwylltion a choed |

| |
|---|
| Bwriad i groes-gyfeirio CGAN a PNL gerllaw<br>Afon Merin – gwella'r gorlifdir ac arafu llif afonydd Myherin a Tharennig<br>Blaenoriaethu cadwraeth coed llydanddail a phlannu ger Pontarfynach<br>Adfer mawndir Tywi, Cwm Berwyn<br>Grŵp Cymunedol Coed-y-bont<br>Tŷ Llwyd<br>Cyfraniad y Comisiwn Ewropeaidd at wytnwch coedydd<br>Prosiect Atlantic Woods gyda ProSilva Iwerddon |
| **Grŵp ar-lein #1 – pethau cadarnhaol** |
| Adfer y gors yn RSPB a Chors Fochno dan ddefnyddio amrywiol ffynonellau cyllido<br>Partneriaeth Gwyddau Bronwen gyda RSPB, BASC, CNC, LIC ac adarwyr lleol<br>Cynllun rheol Ynys-hir yn cael ei ysgrifennu – y cynllun ymgynghori ar ddod<br>Tirweddu blaenoriaeth RSPB yn cwmpasu Ceredigion, Gwynedd a Phowys, gan edrych ar rywogaethau allweddol yn cynnwys y gylfinbraff, titw'r helyg, telor y coed, gwybedog cefnbrith, a Lobaria lichens<br>13 o rywogaethau Cymru o ystlumod yn at Ynys-hir ynghyd â'r pathew, y dwrgi, y llygoden ddŵr a bele'r coed<br>Gweithio fel partneriaeth rhwng Coetir Anian, RSBP a thirfeddianwyr araill ym Mhencarreg<br>Gwell ariannu yn dod ymlaen ar gyfer Biosffer Dyfi<br>Adfer Rhydwyr Magu ar aber afon Dyfi<br>Prosiect coedwigoedd glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys Cwm Einion<br>Prosiect monitro Bae Ceredigion<br>Tir Canol<br>Ailddatblygu seilwaith yn Ynys-hir<br>Gwaith llanw afon Dyfi yn cynnwys cyd-ddylunio gyda chynrychiolwyr lleol o fyd ffermio, pysgodfeydd, cadwraeth a'r sector cyhoeddus i gynllunio ffyrdd i gyfathrebu yn y dyfodol yn wyneb addasu'r arfordir<br>Prosiect Lleoedd Lleol i Natur<br>Coetir Cymunedol Coed-y-bont<br>Prosiect mawn bas yn ardal Dynyn<br>Coetir ac ardal natur newydd yn cael ei defnyddio gan y sgowtiaid ym Mwlch-llan – ariannir gan y Goedwig Genedlaethol Glastir<br>Blychau'r Wennol Ddu<br>Prosiect Gweirglodd Fferm Denmark<br>Llwyddiant cadwraeth ieir bach yr haf – y brithribin |

| |
|---|
| Plannu coed mewn parciau yn Aberaeron, gan gynnwys Tree planting in parks in Aberaeron, gan gynnwys  ar Gae Sgwâr<br>Dal minc drwy hyfforddiant BASC yn Nyffryn Aeron |
| **Grwpiau ar-lein #2 - pethau cadarnhaol** |
